



Antur Chineaidd

Roderick Hunt

Alex Brychta

Coeden
Ddarllen
Rhydychen



Rhagor o
Dylluanod



DRAKE



Roedd Nain yn cael ei phen-blwydd, felly
roedd hi wedi dod i aros.

Rhoddodd y plant anrheg i Nain.

“Pen-blwydd hapus,” medden nhw.

“Diolch ichi,” meddai Nain.




Rhoddodd Dad a Mam anrheg i Nain.
“Dyma siâp rhyfedd!” meddai Nain.
“Alla i ddim meddwl be ydi o.”
Chwarddodd y plant.
“Gallwn ni,” meddai Onw.



Roedd Nain yn hoffi'r anrheg.
Jar Chineaidd oedd hi.
“Gobeithio eich bod yn ei hoffi,” meddai Mam.
“Mae'n hyfryd,” meddai Nain. “Diolch ichi.”
“Rhowch hi mewn lle diogel,” meddai Dad.



Roedd gan Nain syrpreis i bawb.
Roedd ganddi focs tân gwylt.
Roedd hi eisiau parti tân gwylt.
“Ond roeddwn i’n meddwl fod tân gwylt
yn beryglus,” meddai Cad.




“**Mae** tân gwylt yn beryglus,” meddai Nain,
“felly fiw i blant chwarae efo nhw.”
Mam a Nain fu’n paratoi’r tân gwylt.
Roedden nhw’n ofalus iawn.
Aeth y plant ddim ar eu cyfyl.



Daeth Nadim ac Anneena i'r parti.
Roedd pawb yn llawn cyffro.
Taniodd Nain dân gwylt mawr.
"Ooooo!" meddai pawb.
"Am dân gwylt hardd!" meddai Dids.



Dydi cŵn ddim yn hoffi tân gwylt, felly
arhosodd Mwlsyn yn y tŷ.
Yn sydyn, cleciodd un o'r tân gwylt yn uchel.
"Mae'n gas gen i hyn," meddyliodd Mwlsyn, a
chuddio o dan fwrdd bach.



Roedd hi'n amser te.
Roedd gan Mam syrpreis i Nain.
Roedd ganddi gacen ben-blwydd
efo llawer o ganhwyllau arni.
"Pen-blwydd hapus, Nain," meddai pawb.



Aeth Cad i'r ystafell ffrynt
i nôl ei chamaera.
Gwelodd jar Nain ar y llawr.
Roedd y jar wedi torri.
"O na!" meddai Cad.



Aeth y plant i ystafell Cad.
Dangosodd Cad y jar doredig iddyn nhw.
“Bydd Nain yn drist,” meddai Dids,
“a Mam a Dad hefyd.”
“Gobeithio y medrwn ni ei thrwsio,” meddai Cad.



Yn sydyn, dechreuodd yr allwedd ddisgleirio.
Aeth yr hud â'r plant i mewn
i antur newydd.
“O na!” meddai Cad. “Roeddwn i eisiau
rhoi'r jar yn ôl i lawr y grisiau.”



Aeth yr hud â'r plant yn ôl mewn amser.
Aeth â nhw i China er stalwm.
Gwyddai Nadim lle roedden nhw.
"Rydan ni yn y Ddinas Waharddedig," meddai.
"Sut cafodd hi'r enw hwnnw?" gofynnodd Dids.



"Mae'r Ymerawdwr yn byw yma," meddai Nadim.
"Mae o'n byw yma efo'i deulu.
Chaiff neb arall ddod yma.
Dyna pam mae hi'n cael ei galw yn
Ddinas Waharddedig."



Roedd ci ffyrnig yn y
Ddinas Waharddedig.
Doedd o ddim yn hoffi Mwlsyn.
Chwyrnodd y ci ffyrnig a chyfarth, ond
doedd Mwlsyn ddim eisiau ymladd.



“Peidiwch!” gwaeddodd Dids.
Rhedodd merched yno a
chydio yn y cŵn.
Roedd y plant yn bryderus.
“O help!” meddai Dids.



Aeth y merched â'r plant a
Mwlsyn at yr Ymerawdwr.
"Be ydach chi'n wneud yn y
Ddinas Waharddedig?" gwaeddodd.
"Chaiff pobl ddim dod yma."


Galwodd yr Ymerawdwr ar ei filwyr.
"Rhowch nhw yn y carchar!" gwaeddodd.
"Ddysgith hynny iddyn nhw ddod
i'r Ddinas Waharddedig."
"Rydan ni wedi'i ddigio," meddai Cad.



Roedd gan yr Ymerawdwr ddau o blant.
Efeilliaid oedden nhw ac roedden nhw'n edrych
yr un ffunud â'i gilydd.
Siaradodd yr efeilliaid efo'r Ymerawdwr.
Pwyntiodd un ohonyn at y plant.



Roedd yr efeilliaid eisiau chwarae efo Onw.
“Byddaf yn eich carcharu yfory,”
meddai'r Ymerawdwr.
“Heddiw cewch chwarae efo'r efeilliaid.”
“Hwrê,” meddai'r efeilliaid.



Doedd yr efeilliaid erioed wedi chwarae
efo plant eraill.

Wydden nhw ddim sut i chwarae pêl-droed.

Ciciodd un o'r efeilliaid Nadim.

"Awtsh!" meddai Nadim. "Fy nghoes i oedd honna."




Yn sydyn, rholiodd y bêl i ffwrdd a
syrthio i lawr gratin.


"O na!" meddai'r efeilliaid.

"Mae'r bêl ar goll rŵan."


Dechreuodd yr efeilliaid grio.



Cododd Cad a Dids y gratin.
Gwelodd Nadim risiau.
Cychwynnodd i lawr y grisiau.
“Brysia,” meddai Cad. “Dydan ni ddim eisiau
i’r Ymerawdwr ein rhoi ni yn y carchar.”



Aeth Nadim i seler fawr.
Roedd yn llawn gwe pry cop a llwch.
Galwodd Nadim ar y lleill.
“Edrychwch ar y jariau anferth yma,” meddai.
“Maen nhw’n debyg i jar Nain.”




Daeth pobl i'r seler.
Gweision yr Ymerawdwr oedden nhw.
Doedden nhw ddim yn hoffi'r Ymerawdwr.
Roedd ganddyn nhw gasgenni o bowdwr gwn,
am eu bod eisiau chwythu'r palas i fyny.

Roedd ar y plant ofn.
Cuddion nhw yn y jariau.
Welodd y bobl mohonyn nhw.
“Down ni'n ôl heno i chwythu'r palas i fyny,”
meddai un dyn.



Rhedodd y plant at yr Ymerawdwr.
Dywedon nhw wrtho am y powdwr gwn
o dan y palas.
“Mae yna bobl am chwythu’r
palas i fyny heno,” medden nhw.



Y noson honno, daeth y bobl yn ôl.
Roedd milwyr yr Ymerawdwr yn eu disgwyl.
Roedd yr Ymerawdwr wedi ei blesio’n fawr.
“Fydda i ddim yn eich rhoi yn y carchar yn awr,”
meddai wrth y plant.



Cafodd yr Ymerawdwr barti tân gwylt mawr.
Roedd llawer iawn o dân gwylt.
Roedden nhw'n goleuo'r awyr.
Ebychodd pawb pan ffrwydrodd y
tân gwylt.

Meddylodd Cad am Nain.
“Bechod na fyddai hi yma,” meddylodd.
“Byddai Nain wrth ei bodd efo'r holl dân gwylt
yma.
Byddai hi wrth ei bodd efo'r antur yma.”



Roedd yr Ymerawdwr eisiau rhoi anrheg
i'r plant.
Cafodd Cad syniad da.
Gofynnodd am un o'r jariau mawr.
Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.



Aeth yr hud â'r plant adref.
Aeth â'r jar anferth, hefyd.
Ond bellach roedd y jar yn eithaf bach.
"Mae'n edrych yn union fel jar
Nain," meddai Dids.



Edrychodd y plant ar y jariau.

“O na!” meddai Cad.

“Dydyn nhw ddim yn hollol ’run fath chwaith.

Mae sgwennu Chineaidd ar y jar newydd.

Ydach chi’n meddwl y bydd Nain yn sylwi?”

Antur Chineaidd



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 7

Stori gan
Roderick Hunt

Lluniau gan
Alex Brychta

Addasiad Cymraeg gan
Emily Huws



Tylluanod Cam 6

- 1 Yn yr Ardd
- 2 Onw a'r Cawr
- 3 Y Wibdaith
- 4 Gwlad y Deinosauriaid
- 5 Robin Hwd
- 6 Y Gist Drysorau

Tylluanod Cam 7

- 7 Y Blaned Goch
- 8 Ar Goll yn y Jyngl
- 9 Twll yn y To
- 10 Colli Allwedd

Rhagor o Dylluanod Cam 6

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwyllt
Yr Allwedd Sgleiniog

Rhagor o Dylluanod Cam 7

Y Draffordd
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineaidd
Antur Rufeinig
Y Jig-so

Rhagor o
Dylluanod

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1995
① Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
② Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-307-5



ISBN 0 86 174307 5

DRAKE

9 790861 743079